



# Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Canllawiau Addysgu  
Uned 7

## Uned 7 (Diploma Estynedig yn Unig): ANATOMEG A FFISIOLEG AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

### Cyflwyniad:

Prif nod y canllawiau unedau hyn yw cefnogi'r broses o addysgu a dysgu ac i fod yn gydymaith i'r Fanylob. Mae pob un o'r canllawiau unedau yn cynnig esboniad manwl o bwyntiau allweddol yn y Fanylob gyda'r nod o esbonio meysydd cymhleth o gynnwys y pwnc.

### Rhaglen Astudio:

Mae'r gweithgareddau a ddarperir yma yn awgrymiadau ar gyfer datblygu gwybodaeth dysgwyr yn unig. Mae'n rhaid i bob canolfan benderfynu a yw'r gweithgareddau yn briodol i'w dysgwyr, a chydubyddir y gall amodau lleol bennu'r dull a fabwysiedir. Er y gall rhai o'r gweithgareddau a awgrymir olygu ymgysylltu â'r sector, noder bod y mwyafri o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i gael eu cynnal yn yr ystafell ddosbarth. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth drwy'r profiad y byddant yn ei ennill wrth gyflawni pob gweithgaredd. Mae adborth ffurfiannol hanfodol i'r broses ddysgu, er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ennill y graddau gorau posibl. Mae enghreifftiau o weithgareddau wedi'u rhoi yn y canllawiau hyn sy'n cynnig digon o gyfle i roi adborth ffurfiannol.

### Trosolwg o'r cynnwys:

Er mwyn gweithio'n effeithiol yn y sectorau, mae angen i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ddeall anatomeg a ffisioleg y corff dynol. Mae dealltwriaeth o sut mae systemau ffisiolegol yn gweithio dan amgylchiadau arferol yn sylfaenol i gynnal iechyd da. Mae'r ddealltwriaeth hon hefyd yn hanfodol i'n galluogi i drin unigolion yn briodol pan fydd anaf, clefyd neu gyflyrau yn digwydd. Mae hefyd yn bwysig i ddeall ffactorau allanol sy'n effeithio ar y corff, a'u heffeithiau ffisiolegol.

### Asesiad:

**Asesiad:** Asesir yr uned hon drwy arholiad **allanol** 2 awr (a gaiff ei sefyll naill ai ar y sgrin neu fel papur ysgrifenedig), a fydd ar gael yng nghyfres mis Ionawr neu fis Mehefin. Mae'r **arholiad yn cynnwys** amrywiaeth o fathau o gwestiynau er mwyn asesu holl gynnwys yr unedau sy'n ymwnaeth ag anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae pob cwestiwn yn orfodol

## Enghraifft o raglen astudio ar gyfer:

## Uned 7: Anatomeg a ffisioleg ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
7.1 Adeiledd a swyddogaeth celloedd	<p>Cyflwyno cynnwys yr uned a'r dulliau asesu Trafodwch dechnegau arholiad a gofynion arholiad Yr athro i drafod gwahanol ddulliau o adolygu ar gyfer arholiadau.</p>	<p>Deunyddiau Asesu Enghreifftiol:  <a href="https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/iechyd-a-gofal-cymdeithasol-egwyddorion-a-chyd-destunau-addysgu-o-2024/">https://www.dysguiechydagofal.cymru/cymwysterau/iechyd-a-gofal-cymdeithasol-egwyddorion-a-chyd-destunau-addysgu-o-2024/</a></p> <p>Adolygu: <a href="https://www.cbac.co.uk/erthyglau-casgliad/9-awgrym-da-i-ch-helpu-i-adolygu/">https://www.cbac.co.uk/erthyglau-casgliad/9-awgrym-da-i-ch-helpu-i-adolygu/</a></p> <p>Ymarferion adalw:  <a href="https://www.retrievalpractice.org/retrievalpractice">https://www.retrievalpractice.org/retrievalpractice</a></p>	Dysgwyr i ystyried pa ddull adolygu sydd fwyaf addas iddyn nhw.
	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall prif adeiledd a swyddogaeth celloedd, meinweoedd, organau a systemau organau dynol.</p> <p>Mewn parhau, dysgwyr i ymchwilio i'r adeiledd celloedd dynol canlynol: cellbilen, cnewylllyn, amlen gnewyllol, cnewyllan, reticlwlm endoplasmig garw a llyfn, organigyn Golgi, mitocondria, cytoplasm, lysosomau. Yr athro i annog dysgwyr i ymchwilio i swyddogaeth ac adeileddau. Dysgwyr i gyflwyno gwybodaeth mewn tablau / PowerPoint / prez. /sway</p> <p>Trafodaeth a arweinir gan athro a gwers ar symudiad i mewn i gelloedd ac allan o gelloedd. Trafodaeth i gynnwys trylediad syml, osmosis, trylediad cynorthwyedig, cludiant actif ac endo/ecsocytosis. Dysgwyr i lunio posteri A4 ar y broses symud ar ôl y sesiwn. Yr athro i drafod sut mae'r broses hon yn helpu yn ffurf y corff dynol.</p>	<p><a href="https://www.biologyonline.com/tutorials/cell-structure">https://www.biologyonline.com/tutorials/cell-structure</a></p> <p><a href="https://studymind.co.uk/notes/diffusion/">https://studymind.co.uk/notes/diffusion/</a></p> <p><a href="https://www.futurelearn.com/info/courses/teaching-biology-inspiring-students-with-plants-in-science/0/steps/58750">https://www.futurelearn.com/info/courses/teaching-biology-inspiring-students-with-plants-in-science/0/steps/58750</a></p> <p><a href="https://d3kp6tphcrvm0s.cloudfront.net/el21-22_1-8/0/0">https://d3kp6tphcrvm0s.cloudfront.net/el21-22_1-8/0/0</a></p> <p><a href="https://hwb.gov.wales/playlists/view/f02113f1-3eec-45a5-9e93-c800bde8c5f0/cy/1?options=T824h5EVsCk8ek">https://hwb.gov.wales/playlists/view/f02113f1-3eec-45a5-9e93-c800bde8c5f0/cy/1?options=T824h5EVsCk8ek</a></p>	<p>Dysgwyr i lunio taflen gwis 'gwir neu anwir' am adeiledd celloedd dynol.</p> <p>Dysgwyr i lunio taflen diffiniadau A4 am y termau a'u swyddogaethau.</p>

	<p>Dysgwyr i ymchwilio i'r prif fathau o gelloedd yn y corff dynol. Bôn-gelloedd, celloedd yr esgyrn, celloedd y gwaed, celloedd y croen, nerfgelloedd, celloedd endothelaidd, celloedd rhyw a chelloedd pancreatig. Llunio cyflwyniad mewn fformat PowerPoint / prezi / sway. Dysgwyr i drafod cyfansoddiad y prif fathau o gelloedd a llunio ffeithlun neu daflen wybodaeth am y mathau o gelloedd.</p> <p>Trafodaeth a arweinir gan athro ar drefnu celloedd yn feinweoedd gan gynnwys esboniad o feinwe epithelaidd, meinwe gyswilt, meinwe'r cyhyrau a meinwe nerfol.</p> <p>Yr athro i arwain trafodaeth yngylch sut mae meinweoedd yn cael eu trefnu'n organau ac yna sut mae organau yn cael eu trefnu i ffurfio'r system ffisiologol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys deilliant dysgu 7.2</p>	<p><a href="https://www.thoughtco.com/types-of-cells-in-the-body-373388">mpVUSAxDDb5o7Xx%252F65ZW0cejvjm8%252FqLNU4LKQtsmRZ8gegReEkwSbN4isPrOLbIfvQsFa3Dw%253D%253D</a></p> <p><a href="https://www.thoughtco.com/types-of-cells-in-the-body-373388">https://www.thoughtco.com/types-of-cells-in-the-body-373388</a></p>	
--	--	--	--

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
7.2 Adeiledd a swyddogaeth systemau ffisiolegol dynol	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall prif adeiledd a swyddogaeth y systemau a'r organau yn y corff.</p> <p>Mae gan y corff dynol sawl system ffisiolegol. Mae'r systemau hyn yn cynnwys prif organau sy'n gofyn bod y system yn gweithredu'n gywir ac yn effeithlon. Mae sawl system yn cydberthyn i'w gilydd ac yn cefnogi eu prif swyddogaeth. Er enghraifft, prif swyddogaeth y system cardiofasgwlar yw sicrhau bod y galon yn pwmpio gwaed o amgylch y corff. Fodd bynnag, mae'r system cardiofasgwlar yn pwmpio gwaed i'r system resbiradol (yr ysgyfaint) sy'n ei gwneud yn bosibl i waed gael ei ddosbarthu o amgylch y corff.</p> <p>Disgwyler i fyfyrwyr allu enwi a deall swyddogaethau'r systemau a'u prif organau.</p> <p>Gan gynnwys:</p> <p>Dysgwyr i ymchwilio'n annibynnol i systemau'r corff a chwblhau tabl am y cyfansoddiad, gan gynnwys: swyddogaeth, yr organau perthnasol, lleoliad systemau, pwrrpas.</p> <p>Bydd angen i'r dysgwyr drafod y systemau canlynol: Endocrinaidd, nerfol, cyhyrysgerbydol, treulio, cardiofasgwlar, resbiradol, lymffatig, pilynnol, imiwnedd, arenol ac atgenhedlu.</p> <p>Unwaith y bydd dysgwyr wedi ymchwilio i'r systemau yn annibynnol, mewn parau neu grwpiau bach gall dysgwyr ymchwilio i un system y corff a llunio cyflwyniad am y system hon.</p>	<p>System cylchrediad gwaed:  <a href="http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/y-system-cylchrediad-dynol/">http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/y-system-cylchrediad-dynol/</a></p> <p><a href="https://d3kp6tphcrvm0s.cloudfront.net/el21-22_1-11">https://d3kp6tphcrvm0s.cloudfront.net/el21-22_1-11</a></p> <p>Resbiradol :  <a href="http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/resbiradaeth-ar-system-resbiradol-mewn-bodau-dynol">http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/resbiradaeth-ar-system-resbiradol-mewn-bodau-dynol</a></p> <p><a href="https://d3kp6tphcrvm0s.cloudfront.net/el21-22_1-9">https://d3kp6tphcrvm0s.cloudfront.net/el21-22_1-9</a></p> <p>System dreulio :  <a href="https://d3kp6tphcrvm0s.cloudfront.net/el21-22_1-10">https://d3kp6tphcrvm0s.cloudfront.net/el21-22_1-10</a></p> <p>Cardiofasgwlar : <a href="#">System Gardioffasgwlr You Tube</a></p> <p>System imiwnedd :  <a href="https://www.youtube.com/watch?v=PSRJfaAYkW4">https://www.youtube.com/watch?v=PSRJfaAYkW4</a></p> <p><a href="https://www.stem.org.uk/resources/elibrary/resource/35694/immune-system">https://www.stem.org.uk/resources/elibrary/resource/35694/immune-system</a></p> <p>System lymffatig:  <a href="https://www.youtube.com/watch?v=l7orwMgTQ5I">https://www.youtube.com/watch?v=l7orwMgTQ5I</a></p>	Dysgwyr i lunio cyflwyniad PowerPoint am y systemau sy'n nodi swyddogaeth, organau a chyd-ddibyniaeth.

	<p>Dysgwyr i roi eu cyflwyniadau ac, ar ôl y cyflwyniadau / cynhadledd i werthuso a chymharu'r systemau. Trafodaeth a arweinir gan diwtor ynghylch swyddogaethau'r prif organau yn y systemau gan asesu gwybodaeth dysgwyr am eu swyddogaeth ac i ba system y mae'r organ yn perthyn.</p>	<p>Arenol: <a href="https://thescientistteacher.co.uk/kidneys-and-osmoregulation/">https://thescientistteacher.co.uk/kidneys-and-osmoregulation/</a></p> <p>Atgenhedlu: <a href="https://www.stem.org.uk/resources/elibrary/resource/460884/sexual-reproduction-humans">https://www.stem.org.uk/resources/elibrary/resource/460884/sexual-reproduction-humans</a></p> <p>Endocrinaidd: <a href="https://www.stem.org.uk/resources/elibrary/resource/25342/hormones-and-their-effects">https://www.stem.org.uk/resources/elibrary/resource/25342/hormones-and-their-effects</a></p> <p>Cyhyrsgwybodol: <a href="https://www.futurelearn.com/info/courses/musculoskeletal/0/steps/25139">https://www.futurelearn.com/info/courses/musculoskeletal/0/steps/25139</a></p> <p>Nerfol: <a href="https://www.bna.org.uk/resources/neurosciences-in-schools/#secondary-nervous-system">https://www.bna.org.uk/resources/neurosciences-in-schools/#secondary-nervous-system</a></p>	
--	---	--	--

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
7.3 Sut mae ffactorau a dewisiadau ffordd o fyw yn gallu effeithio ar ffisioleg dynol	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall sut mae ffactorau a dewisiadau ffordd o fyw yn gallu effeithio ar ffisioleg dynol (effeithiau cadarnhaol / negyddol):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysmygu / Cynhyrchion fepio</li> <li>• Defnyddio technoleg</li> <li>• Camddefnyddio sylweddau</li> <li>• Gweithgareddau corfforol</li> <li>• Maeth a hydradu</li> <li>• Straen, gorbryder ac iselder</li> <li>• Iechyd rhywiol.</li> </ul> <p>Dysgwyr i ymchwilio'n annibynnol i'r ffactorau ffordd o fyw a chwblhau siart sy'n diffinio'r ffactorau, y ffactorau cadarnhaol, y ffactorau negyddol a'r geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â phob ffactor.</p> <p>Yr athro i wahodd siaradwr gwadd / gweithiwr allweddol i drafod ffactorau a sut mae'r ffactor yn effeithio ar iechyd ffisiolegol.</p> <p>Mewn parau dysgwyr i ddewis ffactor ffordd o fyw a llunio ffeithlun sy'n diffinio'r ffactor ac yn nodi sut y gall effeithio ar y corff yn ffisiolegol</p>	<p>Ysmygu: <a href="https://www.nhs.uk/common-health-questions/lifestyle/what-are-the-health-risks-of-smoking/">https://www.nhs.uk/common-health-questions/lifestyle/what-are-the-health-risks-of-smoking/</a></p> <p>Fepio: <a href="https://www.nhs.uk/better-health/quit-smoking/vaping-to-quit-smoking/">https://www.nhs.uk/better-health/quit-smoking/vaping-to-quit-smoking/</a></p> <p>Camddefnyddio sylweddau: <a href="https://www.priorygroup.com/blog/understanding-the-effects-of-substance-misuse">https://www.priorygroup.com/blog/understanding-the-effects-of-substance-misuse</a></p> <p>Gweithgareddau corfforol: <a href="https://www.nhs.uk/live-well/exercise/exercise-health-benefits/">https://www.nhs.uk/live-well/exercise/exercise-health-benefits/</a></p> <p>Maeth a Hydradu: <a href="https://www.nhs.uk/live-well/eat-well/how-to-eat-a-balanced-diet/eating-a-balanced-diet/">https://www.nhs.uk/live-well/eat-well/how-to-eat-a-balanced-diet/eating-a-balanced-diet/</a></p> <p>Straen, gorbryder ac iselder: <a href="https://www.bhf.org.uk/informationsupport/risk-factors/stress">https://www.bhf.org.uk/informationsupport/risk-factors/stress</a></p> <p>Iechyd rhywiol: <a href="https://sexualhealth.cht.nhs.uk/for-professionals/phse-sexual-health-resources">https://sexualhealth.cht.nhs.uk/for-professionals/phse-sexual-health-resources</a></p>	Dysgwyr i ddefnyddio platfform ar-lein i greu cwis am ffactorau ffordd o fyw (e.e.: Quizzizz, Quizlet neu Kahoot).

Maes Testun	Gweithgareddau	Adnoddau	Gwaith cartref
7.4 Monitro iechyd a llesiant	<p>Dylai dysgwyr wybod a deall y ffyrdd mae unigolion yn gallu monitro eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.</p> <p>Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwneud mesuriadau corfforol</li> <li>• profi sbesimenaу</li> <li>• rhaglenni sgrinio</li> <li>• rhaglenni brechu</li> <li>• monitorau a dyfeisiau iechyd personol</li> <li>• apiau a thechnoleg ffôn symudol.</li> </ul> <p>Mewn grwpiau dysgwyr i ymchwilio i'r gwahanol ddulliau o fonitro iechyd a chynnal trafodaeth grŵp ynghylch effeithiau cadarnhaol a negyddol y dulliau hyn ar unigolion.</p> <p>Yr athro i arwain sesiwn ymarferol ar gynnal profion mesuriadau corfforol (gyda chaniatâd). Gall dysgwyr ddewis o'r canlynol: Taldra, pwysau, pwysedd gwaed, tymheredd, anterth llif, cyfradd curiad y galon, ocsimedrau pwls.</p> <p>Sesiwn a arweinir gan athro gyda siaradwr gwadd ar y rhaglenni imiwneiddio a brechu sydd ar gael i unigolion yng Nghymru. Dysgwyr i ystyried cwestiynau i'w gofyn i'r siaradwr gwadd sydd ar gael (Ymwelydd iechyd, bydwraig gymunedol).</p>	<p>Gwefan Sgrinio am Oes:  <a href="https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/">https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/</a></p> <p>Brechu Cymru  <a href="https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/">https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/</a></p> <p>Profion gwaed:  <a href="https://www.nhs.uk/conditions/blood-tests/types/">https://www.nhs.uk/conditions/blood-tests/types/</a></p> <p>Profion wrin:  <a href="https://www.kidney.org/atoz/content/what-urinalysis">https://www.kidney.org/atoz/content/what-urinalysis</a></p>	<p>Dysgwr i lunio nodiadau adolygu byr ar bedair ochr o bapur A4 ynglŷn â thestunau a drafodwyd yn ystod yr wythnos.</p>